

# Ysgol Botwnnog

## Chwaraeon



Lois, Bess, Tara, Beca a Magi.

Mae nifer o'r genethod wedi cynrychioli'r ysgol yn nhimau Pêl-droed Eryri o dan 14 oed ac o dan 16. Bydd mwy o gemau yn cael eu trefnu yn y dyfodol agos.

**Cafodd** criw o ddisgyblion gyfle i fynychu diwrnod yng Nghanolfan Chwaraeon Caernarfon wedi ei drefnu gan y Cyngor Sir drwy Ms Shoned Owen. Roedd cyfle i roi cynnig ar wahanol fathau o gemau a chyfleoedd cadw'n heini. Yn ôl Catrin Roberts o Flwyddyn 10: "Roedd yn ddiwrnod da, cyfle i drïo rhywbeth newydd a chyfarfod â disgyblion o ysgolion eraill. Mi wnes i fwynhau fy hun ond nid pan ddisgynnais wrth chwarae gêm."

**Daeth** llawer o lwyddiant i enethod yr ysgol ym maes chwaraeon y tymor hwn. Mae Nel Hughes o Flwyddyn 9 yn chwaraewraig hoci o fri. Yn dilyn treialon ar gyfer tîm o dan bedair ar ddeg oed Eryri cafodd ei dewis i sgwad Eryri yn un o 24



Nel

merch o'r ardal. Yn ddiweddarach mewn treialon yn y Bala dewiswyd Nel yn un o 14eg o enethod i gynrychioli Gogledd Cymru. Yn anffodus collodd Nel y gêm gyntaf oherwydd anaf ond dymunwn yn dda iddi yn y gêm nesaf gyda tîm Gogledd Cymru, draw yn Derby. Pob llwyddiant am weddill y tymor.




Cynrychioli'r ysgol fel Llysgenhadon Chwaraeon yr oedd nifer o athletwyr brwd o bob blwyddyn. Cynhaliwyd sesiwn i'w dysgu i hyfforddi eu cyddisgyblion mewn tenis. Am eu bod yn gynrychiolydd Blwyddyn 11 derbyniodd Magi Hughes ac Iwan Griffith, uchod, wobwr Llysgenhadon Aur.

## Theatr mewn Addysg

Am yr ail flwyddyn yn olynol ymwelodd Cwmni Theatr Mewn Addysg â'r ysgol i lwyfannu drama ryngweithiol "You think you can wait". Mae hwn yn berfformiad grymus a phwerus ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10 yn ymchwilio i berthynas bachgen a merch yn eu harddegau. Mae'r disgyblion yn rhan annatod o'r perfformiad a gellir stopio, ail ddirwyn golygfeydd a holi'r cymeriadau. Fel rhan o'r ddrama mae achos llys a'r disgyblion yw'r rheithgor a difyr oedd nodi fod un grŵp wedi cael y diffynnydd yn euog a'r grŵp arall yn ei gael yn ddieuog. Roedd y disgyblion wedi mwynhau'r perfformiad yn fawr.

## Cymorth Cyntaf



Be rwan?!

Dewi Thomas yn y Cwrs Cymorth Cyntaf

Bu rhai o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn gwneud defnydd o Ganolfan Fenter Congl Meinciau yn ddiweddar. Yr oedd cwrs Cymorth Cyntaf wedi cael ei drefnu yno o dan nawdd Pontio i helpu disgyblion wrth iddynt ddod at derfyn eu gyrfa ysgol. Llongyfarchiadau i bawb fu'n llwyddiannus ac a enillodd dystysgrif am eu hymdrechion.


## Y Gymdeithas Rienï

Cynhaliwyd Ffair Grefftau flynyddol y Gymdeithas Rienï yn ystod y mis a daeth nifer fawr o grefftwyr a chynhyrchwyr lleol i gynnal stondinau. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac i'r Gymdeithas am y trefniadau.

## Llongyfarchiadau

Rhaid llongyfarch nifer o'r staff a'u partneriaid hefyd. Llongyfarchiadau i Llinos Hughes a Gruff ar enedigaeth Mirain Lliwen; Tara Evans a Geraint ar enedigaeth Iolo; Elgan Rowlands a Rebeca Hughes ar enedigaeth Elis Rhys, a Gwenllian Hughes Jones a Wil ar enedigaeth Hawys Elin. Dymuniadau gorau i chwi i gyd.

## Golygyddion



Lois, Steffan a Wil, golygyddion y dudalen am y tro olaf, yn edmygu eu gwaith eu hunain!